Inspection of Youth Offending Work
Arolygiad o Waith Troseddu Ieuenctid

HM Inspectorate of Probation
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre, 1 Bridge Street West, Manchester M3 3FX
0161 240 5336 - www.justice.gsi.gov.uk/about/hmi-probation

| | |
|---|---|
| *At:* | Morwena Edwards, Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| *Copi at:* | Gweler y rhestr gopïau ar y diwedd |
| *Oddi wrth* | Julie Fox, Dirprwy Brif Arolygydd EM |
| *Dyddiad Cyhoeddi* | 19eg Chwefror 2014 |

## Adroddiad ar Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) gwaith troseddu ieuenctid yng Ngwynedd ac Ynys Môn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r arolygiad SQS diweddar, a gynhaliwyd o'r 6ed i'r 8fed o fis Ionawr 2014. Gwnaethom hyn fel rhan o'n rhaglen arolygu gwaith troseddu ieuenctid. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Darperir copi i arolygiaethau partner i ddarparu gwybodaeth ar gyfer eu harolygiadau, ac i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI).

### Cyd-destun

Fel arolygiaeth annibynnol, bydd Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn rhoi sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd ar effeithiolrwydd gwaith gyda'r sawl sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu, yn hybu gwelliant parhaus y sefydliadau rydym yn eu harolygu ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol.

Mae asesu a chynllunio o ansawdd da ar ddechrau dedfryd yn hanfodol o ran cynyddu tebygolrwydd deilliannau cadarnhaol. Diben yr arolygiad hwn oedd asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith achos diweddar gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu. Er mwyn gwneud hyn, gwnaethom archwilio 14 achos yr oedd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Gwynedd ac Ynys Môn yn eu harolygu. Lle bynnag y bo'n bosib, fe gynhelir hyn ar y cyd â'r rheolwr achos y rhoddwyd y gwaith iddo, gan gynyddu'r effeithiolrwydd felly o ran cyfle dysgu i staff.

Byddwn yn casglu tystiolaeth yn erbyn meini prawf SQS, sydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi - http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation.

### Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom dîm staff ymroddedig lle roedd gweithwyr GCI wedi creu perthynas adeiladol â'r plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu, a'u teuluoedd. Roedd cysylltiadau da yn bodoli gydag asiantaethau eraill a gallai gweithwyr fynd at ystod eang o adnoddau i'w helpu wrth asesu a chynllunio'u gwaith. Nodwyd gwelliannau ers ein harolygiad diwethaf mewn gwaith i reoli tebygolrwydd aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd. Er bod staff yn siarad yn gadarnhaol am y gefnogaeth y mae eu rheolwyr yn ei chynnig, gwelsom nad oedd goruchwylio gwaith, yn enwedig o ran diogelu plant a phobl ifanc, yn ddigon effeithiol. O ystyried ymrwymiad y staff a'r rheolwyr i ddarparu gwasanaeth i blant a phobl ifanc a'r gymuned, rydym yn rhagweld y gellir cyflawni'r gwaith da a welsom mewn rhai achosion, ym mhob achos.

**Sylwadau ar yr arolygiad yng Ngwynedd ac Ynys Môn:**

## 1. Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu

1.1. Buom yn edrych a yw'r asesiad o paham y mae'r plentyn neu berson ifanc wedi troseddu yn ddigon da a gwelwyd ei fod felly, oni bai am ddau achos. Roedd gwirio gydag asiantaethau eraill fel ysgolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn helpu i roi darlun llawn o amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc. Roedd wyth o'r un ar ddeg achos a oedd i'w hadolygu wedi'u cwblhau yn ddigon da. Lle gwelwyd bylchau, roeddent yn ymwneud â darparu diweddariad annigonol ynghylch amgylchiadau plentyn neu berson ifanc.

1.2. Darparwyd adroddiadau cyn dedfrydu ysgrifenedig i'r llys mewn pedwar achos ac yn gyffredinol, cafodd y rhain eu hasesu fel rhai o ansawdd da. Mewn chwe achos, rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r llys ar lafar, ac ar adegau ar y cyd ag adroddiad cynnydd byr. Lle nad oedd dogfen ysgrifenedig, roedd angen gofalu sicrhau bod y cyngor a roddwyd i'r llys wedi'i gofnodi'n ysgrifenedig a'i osod ar ffeil achos y GCI bob amser.

1.3. Yn dilyn yr asesiad, disgwyliwn weld cynllun gwaith i helpu i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Roedd hwn yn ei le, ac o ansawdd digon da ym mhob achos ond dau yn y gymuned. Yn achos person ifanc ar orchymyn oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, roedd y gweithiwr yn cydnabod bod angen iddi ddatblygu cysylltiadau â'r gymuned leol er mwyn lleihau aildroseddu. Cafodd y person ifanc gefnogaeth i gadeirio cyfarfod trigolion lleol i drafod datblygu cyfleuster hamdden ar yr ystad dai, a derbyniodd ganmoliaeth am ei gwaith gan gynghorydd lleol. Mae'r math hwn o fynd ati yn greadigol yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu hunan-barch ac ystyried pobl eraill.

1.4. Roedd dau o'r achosion yn y sampl yng nghanol Gorchymyn Cadw a Hyfforddi (DTO) ac nid oedd gan y naill na'r llall gynllun yn ei le i gwmpasu elfen warchodol y ddedfryd. Gan fod y ddau berson ifanc yn 18 oed wrth dderbyn y ddedfryd yn y llys, fe'u hanfonwyd i Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) a'u trin fel oedolion ifanc yn hytrach nag fel plant. Oherwydd nad oedd y GCI wedi cyflawni cynllun dedfryd cychwynnol, ac yn yr achosion hyn, nid yw'r YOI yn paratoi un ychwaith, nid oedd gan y naill na'r llall o'r bobl ifanc hyn gynllun ar gyfer rhan warchodol eu dedfryd. Mewn achosion o'r fath, byddwn wedi disgwyl i'r GCI gyflawni'r dasg hon.

## 2. Diogelu'r cyhoedd

2.1. Rydym yn disgwyl gweld asesiad manwl ynghylch y risg o niwed y mae plentyn neu berson ifanc yn ei beri i eraill. Dylai hwn gwmpasu'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys troseddu ac ymddygiad yn y gorffennol, yn ogystal â'r effaith ar ddioddefwyr. Gwelsom fod hyn wedi digwydd ym mhob achos ond tri. Lle nad oedd yr asesiad yn ddigonol, roedd hynny fel rheol oherwydd na chafodd troseddau neu ymddygiad perthnasol yn y gorffennol eu hystyried. Fodd bynnag, roeddem yn cytuno â'r asesiad am lefel y niwed roedd y plentyn neu'r person ifanc yn ei beri i eraill ym mhob achos ond un.

2.2. Wedi asesu'r risgiau, dylai'r GCI roi cynlluniau yn eu lle i'w rheoli. Roedd hyn wedi'i gyflawni'n dda mewn pump allan o'r wyth achos perthnasol. O'r gweddill, roedd naill ai dim cynllun rheoli risg (un achos) neu nid oedd yr ymateb a gynlluniwyd pe bai risg niwed i eraill yn cynyddu yn ddigon penodol.

2.3. Gall risg niwed i eraill newid dros amser ac felly, mae angen cadw golwg arno. Roedd yr asesiad risg o niwed wedi'i adolygu'n ddigon da mewn saith allan o'r naw achos perthnasol. Roedd cynlluniau i leihau'r risg o niwed i eraill a'u rheoli wedi'u diweddaru yn ôl y gofyn ac roeddem yn falch o weld bod swyddog heddlu'r tîm yn cynnal gwiriadau perthnasol ar gyfeiriadau, sef defnydd da o'i amser.

2.4. Daethom i'r casgliad, lle bod dioddefwr y gellir ei adnabod, neu ddioddefwr arfaethedig, fod risg y niwed yr oeddent yn ei wynebu wedi'i reoli'n effeithiol yn hanner yr achosion perthnasol yn unig (pedwar allan o wyth). Nid oedd natur y risg o niwed i ddioddefwyr, na'r lefel, wedi'u hadnabod yn llawn neu ni roddwyd digon o sylw iddynt, yn enwedig mewn cynlluniau ymyriadau. Mewn gormod o achosion, roedd y rhain yn cynnwys datganiadau amwys fel 'cwblhau gwaith ymddygiad troseddol' neu 'sgiliau meddwl canlyniadol' yn hytrach na'u teilwra i'r drosedd benodol a'r effaith ar y dioddefwr.

## 3. Amddiffyn y plentyn neu berson ifanc

3.1. Mewn llawer o achosion, mae'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi troseddu hefyd yn agored i niwed eu hunain ac rydym yn disgwyl gweld bod hyn wedi'i ystyried. Gwelsom fod gan ychydig dros dri chwarter yr achosion asesiad digonol o anghenion diogelu a bod yn agored i niwed. O ran y gweddill, roedd angen rhoi gwell sylw i sgrinio cychwynnol anghenion diogelu'r plentyn neu'r person ifanc; mewn un achos, roeddem yn teimlo fod lefel pa mor agored i niwed oedden nhw wedi'i amcangyfrif yn rhy isel.

3.2. Roedd cynllunio ar gyfer mynd i'r afael â bod yn agored i niwed a diogelu yn ddigon da yn 7 allan o'r 11 o achosion perthnasol. Ymhlith y rhesymau pam fod bylchau, oedd fod cynlluniau rheoli bod yn agored i niwed ar goll neu yn hwyr ac ymateb wedi'i gynllunio annigonol pe bai lefel bod yn agored i niwed yn cynyddu. Lle mae awdurdod lleol yn gofalu am blant a phobl ifanc, roedd angen adlewyrchu hynny'n well yng nghynllun y GCI. Mewn un achos, a oedd wedi'i asesu fel bod yn agored iawn i niwed, gosodwyd y dyddiadau adolygu bob tri mis; nid oedd hyn yn ddigon aml o ystyried lefel yr angen.

3.3. Roedd gan staff y GCI fynediad at banel iechyd bob wythnos, lle byddai gweithwyr iechyd, gweithiwr llafaredd ac iaith y tîm a seiciatrydd ymgynghorol yn bresennol. Roedd gwaith y panel yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at asesiad a chynllun y plentyn neu'r person ifanc ac yn adnodd ymgynghori gwerthfawr i staff y GCI.

3.4. Mae anghenion diogelu plant a phobl ifanc yn newid dros amser ac mae'n rhaid, felly, cadw golwg arnynt. Gwelwyd bod asesiadau wedi'u hadolygu at safon dderbyniol mewn chwech allan o ddeg o achosion. Lle gwelwyd bylchau, roeddent fel rheol oherwydd methiant i adolygu'r asesiad yn dilyn newid sylweddol mewn amgylchiadau, er enghraifft symud cyfeiriad neu ailddechrau camddefnyddio sylweddau. Roedd yr un peth yn berthnasol i gynlluniau i fynd i'r afael ag anghenion diogelu a bod yn agored i niwed a oedd wedi'u hadolygu'n ddigonol mewn traean o'r achosion perthnasol yn unig. Nid oedd rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r diffygion hyn.

## 4. Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chwblhau

4.1. Roedd materion amrywiaeth a rhwystrau posib eraill i ymgysylltu wedi'u hasesu'n dda ym mhob achos. Roedd y GCI yn cwmpasu ardal wledig fawr ac roedd gweithwyr yn gallu darparu'r cydbwysedd cywir rhwng ymweld â'r cartref ac apwyntiadau mewn swyddfa, gan ddefnyddio adnoddau cymunedol yn dda. Roedd y dull hyblyg hwn o fynd ati yn helpu gweithwyr y GCI i ennyn diddordeb y plentyn neu berson ifanc a'i rieni/gofalwyr yn yr asesiad a'r cynllun gwaith.

4.2. Wrth arolygu yng Nghymru, rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o sgrinio gweithredol ac amserol o ran dewis iaith Cymraeg/Saesneg plentyn neu berson ifanc. Roeddem yn falch o weld y gofynnwyd i'r holl blant a phobl ifanc am eu dewis iaith wrth gysylltu â staff y GCI am y tro cyntaf. Roedd hyn yn cynnwys eu dewis iaith yn ysgrifenedig ac ar lafar. Darparwyd rheolwr achos Cymraeg ei iaith i bawb a fynegodd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith.

4.3. Roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc yn ein sampl wedi cydymffurfio â'u gorchymyn. O ran y rheiny nad oedd wedi cydymffurfio, gwelsom fod y GCI wedi ymateb yn briodol ym mhob achos ac eithrio un. Roedd hyn yn adlewyrchu ymdrechion gweithwyr, gan gynnwys ymweld â'r cartref ac atgoffa rhieni/gofalwyr o bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda'r GCI.

## Rheolaeth weithredol

Rydym yn chwilio am dystiolaeth fod goruchwylio y rheolwyr wedi bod yn effeithiol wrth sicrhau ansawdd gwaith i fynd i'r afael â risg niwed i eraill a diogelu plant. Gall hyn fod ar ffurf sesiynau un-i-un rhwng gweithiwr a'i reolwr, neu gyfarfod ehangach â chydweithwyr mewnol neu bartneriaid allanol, yn ogystal â rhoi prosesau sicrhau ansawdd cadarn ar waith.

Roedd y saith gweithiwr y gwnaethon ni eu holi o'r farn fod eu rheolwyr yn meddu ar y sgiliau i'w cefnogi a'u helpu i wella ansawdd eu gwaith. Disgrifiodd nifer ohonynt bolisi drws agored, lle gellir ceisio cyngor rheolwyr ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, er bod rheolwyr ar gael, gwelsom fod goruchwylio staff neu drefniadau sicrhau ansawdd eraill wedi bod yn effeithiol mewn 4 achos yn unig allan o 11 achos lle byddem wedi disgwyl iddo wneud gwahaniaeth. Mae'n bosib y gallai goruchwylio y rheolwyr fod wedi cael ei ddarparu trwy gydlofnodi gwaith, ond nid yw'r broses hon wedi nodi diffygion na helpu mewn gormod o achosion nac ychwaith wedi helpu staff i ddatblygu eu harfer.

Gwelsom fod mwyafrif llethol y gweithwyr yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau lleol ar gyfer rheoli risg niwed, diogelu, ymgysylltu a chydymffurfio. Roedd ambell weithiwr heb ddeall yn llawn egwyddorion arfer effeithiol â phlant a phobl ifanc sy'n troseddu. Roedd ychydig yn fwy na hanner y gweithwyr o'r farn eu bod yn deall blaenoriaethau'r sefydliad yn ddigonol a sut y bydd y rhain, yn eu tro, yn effeithio ar eu rôl.

Roedd y mwyafrif llethol o'r farn fod eu hanghenion o ran hyfforddiant a sgiliau yn cael eu bodloni'n llawn mewn perthynas â'u swydd bresennol. Roedd nifer yn siarad yn gadarnhaol am hyfforddiant a dderbyniwyd wrth ddiwallu gwahanol anghenion, yn enwedig llafaredd, iaith a chyfathrebu; roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein canfyddiadau. Pan ofynnwyd am eu hanghenion datblygu yn y dyfodol, roeddent i gyd o'r farn fod y rhain yn cael eu diwallu'n rhannol os nad yn gyflawn.

## Cryfderau allweddol

- Roedd staff y GCI yn gweithio'n galed i helpu plant a phobl ifanc i gydymffurfio â'u gorchmynion llys. Roeddent yn arbennig o dda wrth adeiladu perthynas gyda'r plentyn neu berson ifanc a chynnal ymweliadau â'r cartref i helpu i ddeall problemau yn drwyadl.
- Cyfraniad panel iechyd GCI i ddeall anghenion plant a phobl ifanc a chefnogi staff GCI yn eu gwaith.

## Meysydd sydd angen gwelliant

- Cynllunio, yn benodol:
    - ♦ gwella ansawdd cynlluniau cychwynnol i fynd i'r afael â diogelu a'r materion yn ymwneud â'r sawl sy'n agored i niwed, gan adolygu'r rhain yn rheolaidd a'u diweddaru mewn ymateb i newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau
    - ♦ sicrhau bod cynllun yn ei le bob amser i gwmpasu cyfnod gwarchodol y ddedfryd.
- Adolygu asesiadau yn rheolaidd ac yn dilyn newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau.
- Darparu goruchwylio y rheolwyr yn effeithiol a sicrhau ansawdd asesu a chynlluniau.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a roddodd staff yn y GCI i ni i hwyluso a chymryd rhan yn yr arolwg hwn. A fyddech cystal â mynegi ein diolch, a sicrhau eu bod yn hollol ymwybodol o'r canfyddiadau hyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr arolygiad, cysylltwch â'r arolygydd arweiniol, sef Helen Davies. Gellir cysylltu â hi yn helen.davies@hmiprobation.gsi.gov.uk neu ar 07919 490420.

Copi at:

| | |
|---|---|
| Y Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT)/Pennaeth Gwasanaeth/Rheolwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (YOS) | *Stephen Wood* |
| Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol | *Harry Thomas* |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant | *Gwen Carrington* |
| Aelod Etholedig Arweiniol Gwasanaethau Plant Gwynedd | *Y Cyngh Wyn Williams* |
| Aelod Etholedig Arweiniol Gwasanaethau Plant Ynys Môn | *Y Cyngh Ken Hughes* |
| Aelod Etholedig Arweiniol Trosedd Gwynedd | *Y Cyngh John Wyn Williams* |
| Aelod Etholedig Arweiniol Trosedd Ynys Môn | *Y Cyngh Ken Hughes* |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | *Winston Roddick* |
| Cadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant | *Morwena Edwards* |
| Cadeirydd Mainc Llys Ieuenctid | *d/o Alecs Peate (uwch glerc y llys)* |
| Pennaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) yng Nghymru | *Dusty Kennedy* |
| Pennaeth Goruchwylio a Chefnogaeth BCI Cymru | *Phillip Davies* |
| Staff cyswllt BCI | *Malcolm Potter, Paula Williams, Linda Paris* |
| Estyn | *Rachael Bubalo, Linda Howells* |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | *Bobbie Jones, Nigel Brown,* |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | *Robin Bradfield* |
| Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi | *Paul Eveleigh* |

Sylwer: i ofyn am gopi papur o'r adroddiad hwn, cysylltwch â Chyhoeddiadau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn publications@hmiprobation.gsi.gov.uk neu ar 0161 240 5336.